# CYHOEDDI PAPURAU NEWYDD YNG NGHYMRU

## gan BETI JONES

*(Parhad o Rifyn 51, tudalen 20)*

Menter gwbl wirfoddol yw pob papur bro, ac amrywiant dipyn o ran maint, arddull a fformat. Cysodir rhai yn broffesiynol, defnyddir prosesyddion geiriau gan eraill tra gwelir rhai yn dal i ddefnyddio amrywiol deipiaduron. Derbyniant grantiau cymharol fach gan Gyngor Celfyddydau Cymru, ond mae eu bodolaeth yn dibynnu'n fwy ar werthiant, hysbysebion lleol, a gweithgareddau codi arian lleol, sydd ynddynt eu hunain yn is-gynhyrchion cymunedol pwysig. Plwyfol, yn ystyr orau'r gair, yw'r newyddion a geir ynddynt ond yn aml y maent yn ffenestr i'r byd i'r graddau eu bod yn cynnwys adroddiadau gan drigolion lleol, neu am drigolion lleol sydd wedi ymweld â rhannau dieithr o'r byd, neu sy'n byw dramor. Tueddant i fod yn anwleidyddol, ond nid ydynt yn fyr o leisio safbwynt ar faterion dadleuol, nac o ddarparu arweiniad i'r gymuned pan fo angen hynny. Un feirniadaeth ohonynt y gellir o bosib ei gwneud yw eu bod yn tueddu i ganolbwyntio ar y newyddion 'da', ac i osgoi pethau fel hanes llysoedd lleol, ysgariadau, ac ati, a'u gadael i'r papur lleol traddodiadol, Saesneg ei iaith yn bennaf.

Gwendid o fewn pob menter wirfoddol yw y gall y diddordeb bylu ar ôl y brwdfrydedd cyntaf, a chlywid y wireb hon yn aml yn nyddiau sefydlu'r papurau bro cyntaf. Dilynid marw rhai papurau cynnar gan broffwydoliaethau y byddai'r mudiad cyfan yn methu'n fuan, ond ni ddigwyddodd hyn, ac ugain mlynedd yn ddiweddarach y mae'r Adroddiad a gynhyrchwyd gan Dr Emyr Williams yn sôn am nifer diddorol o bosibiliadau hir-dymor eraill, a allai osod y 52 papur sy'n bod ar sail ariannol ddiogel a fyddai'n sicrhau eu parhad i'r dyfodol, ac o bosib eu datblygiad yng nghyflawnder yr amser, i fod yn gyhoeddiadau wythnosol rheolaidd.

### CYHOEDDI CYMRAEG DRAMOR

Weithiau gellid dod ar draws cyhoeddi papurau a chylchgronau Cymreig y tu allan i Gymru — yn Llundain a Lerpwl, er enghraifft, ac ymhellach o lawer yn America ac Awstralia. Fel yn achos pobloedd o bob rhan o Ewrop, bu America yn dynfa anodd ei gwrthsefyll i'r Cymry yn ystod y rhan gyntaf o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn enwedig yn sgîl datblygiad y diwydiannau dur a glo, a chwareli llechi ym Mhensylfania. Anghydffurfwyr pybyr oedd y rhan fwyaf o'r ymfudwyr o Gymru, a buan yr aeth y gwahanol enwadau ati i godi capeli a fyddai'n ganolfannau i'w gweithgareddau. Dyma'r math o gymdeithas, a fodelwyd yn glós ar y gymdeithas yn 'yr hen wlad', y ceisiodd y wasg ei gwasanaethu, ac nid yw'n syn mai'r cylchgronau enwadol a lwyddodd orau, fel yng Nghymru ei hun. Y cyntaf o blith y rhain oedd *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, a sefydlwyd yn 1838 gan William Rowlands, fel cyhoeddiad rhyng-enwadol, ond a ddaeth yn fuan i fod yn gyhoeddiad swyddogol y Methodistiaid Calfinaidd Cymraeg yn America, ac a oroesodd hyd 1933. Dilynwyd yr esiampl hon gan y ddau brif enwad arall, yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr. Y *Cenhadwr Amercanaidd* oedd papur y cyntaf, a ymddangosodd rhwng 1840 a 1904 a'r *Seren Orllewinol* (1844-1867) a'r *Wawr Americanaidd* (1872-1896) yn achos yr ail. Er fod y cylchgronau hyn wedi eu huniaethu'n glós â'r enwadau a'u noddai hwynt, eto nid enwadol a chrefyddol yn unig oeddynt o ran cynnwys. Yn aml, cynhwysent newyddion y dydd, boed genedlaethol neu dramor, ynghyd â sylwebaeth ar faterion y dydd, megis caethwasiaeth, dirwest, ac yn y blaen.

Y papur newydd Cymraeg cyntaf i'w gyhoeddi yn America i wasanaethu'r ffrwd gyson o ymfudwyr o Gymru i America oedd *Cymro America,* a sefydlwyd yn 1832 gan John A. Williams, a fu unwaith yn argraffydd yn Abertawe. Pythefnosolyn dwyieithog oedd hwn, a bu fyw am fis yn unig. Byr hefyd fu bywyd ei ddilynydd fel papur newydd Cymreig, *Haul Gomer,* a ddaeth i ben ei daith ar ôl naw rhifyn. Dilynwyd y rhain gan eraill, byr eu parhad, gan roi cyfanswm o 18 o bapurau a sefydlwyd rhwng 1832 a'r 1920au, ac a anelwyd at y Cymry Americanaidd. Er hynny, cafodd rhai eraill fywyd meithach. Goroesodd *Cymro Americanaidd,* a argraffwyd yn Efrog Newydd, am bum mlynedd rhwng 1855 a 1860, tra llwyddodd *Colomen Columbia,* a gyhoeddid yn Kansas a'r *Wasg* a gyhoeddid yn Pittsburgh, i oroesi am 10 mlynedd (1883-93) yn achos y cyntaf, a 19 o flynyddoedd (1871-90) yn achos yr ail. Ond y mwyaf llwyddiannus yn eu plith oedd *Y Drych Americanaidd,* a gyhoeddwyd yn gyntaf yn Efrog Newydd yn 1851 ond a symudodd yn 1861 i Utica, a ddaeth yn ganolfan gyhoeddi yn yr iaith Gymraeg, a sefydlu ei hun yno fel y prif bapur newydd ymhlith y Cymry yn America. Parhaodd yn gyhoeddiad Cymraeg ei iaith hyd dridegau cynnar y ganrif bresennol, gan droi'n fisolyn yn 1940, ond cyhoeddir ef o hyd — yn bapur newydd Saesneg ei iaith — yn Milwaukee, Wisconsin. Arweiniodd datblygiad papurau bro Cymraeg at sefydlu cyhoeddiad tebyg yn America o'r enw *Ninnau: papur bro Gogledd America* a ymddangosodd gyntaf fel misolyn yn 1975 ac sy'n parhau heddiw.

Yr oedd sefydlu gwladfa ym Mhatagonia yn 1865 i arwain at ymddangosiad papurau newydd Cymraeg eraill ymhell o'r famwlad. Ni oroesodd *Y Brut,* a ymddangosodd mewn llawysgrif am gyfnod byr ar ôl 1868. Y mae'r un peth yn wir am *Ein Breiniad,* a gyhoeddwyd yn 1878, ond yn 1891 sefydlodd Lewis Jones, un o arloeswyr y Wladfa, bapur newydd Cymraeg wythnosol o'r enw *Y Drafod,* a pharhaodd i ymddangos felly hyd 1961. Heddiw fe'i cyhoeddir yn chwarterol a'r rhan fwyaf o'i gynnwys yn Sbaeneg.

Yr oedd ymfudo o Gymru i Awstralia ar raddfa lawer llai na'r un i America, ond yma eto gwnaed ymdrechion i ddarparu cyhoeddiadau cyfnodol ar gyfer yr ymfudwyr yn eu hiaith eu hunain. Cofnodwyd tri theitl, sef *Yr Ymgeisydd,* a ddaeth i ben yn ôl pob golwg ar ôl ei rifyn cyntaf yn 1865; *Yr Awstralydd,* a ymddangosodd rhwng 1866 a 1872, a'r *Ymwelydd,* a gyhoeddwyd gyntaf yn 1874, ac a oroesodd hyd 1876.

### PAPURAU RHAD AC AM DDIM

Nid oedd papurau rhad ac am ddim yn gwbl anadnabyddus yn y ddeunawfed ganrif, ac y mae copi o'r flwyddyn 1797 yn bod, ond y mae twf cyflym a datblygiad papurau a ddosberthir yn rhad yn ein dyddiau ni yn ffenomen sy'n dyddio o'r 1960au hwyr a'r 1970au cynnar. Erbyn heddiw, ffurfiant gyfartaledd uchel o'r holl bapurau newydd a gyhoeddir yn yr Ynysoedd Prydeinig. Amrywiant yn fawr o ran arddull a chynnwys. Taflenni hysbysebu yw rhai ohonynt a fawr ddim newyddion na deunydd golygyddol tra ceir eraill sy'n olynwyr i bapurau y telid amdanynt gynt ond sydd wedi penderfynu ymuno â'r fasnach ddosbarthu rhad — yn hynod o debyg i'w rhagflaenwyr. Yr hyn sydd ganddynt yn gyffredin serch hynny yw eu bod yn dibynnu'n gyfan gwbl ar hysbysebion, ac felly ar beirianwaith dosbarthu effeithiol. Y maent wedi bod yn fygythiad i'r papurau lleol traddodiadol mewn rhai ardaloedd, drwy fod yn ffynhonnell newyddion lleol, ac aethant mor bell â ffurfio Cynghrair.

Dathlodd y cynghrair hwn — Cynghrair y Papurau Newydd Rhad — ei ddegfed pen-blwydd ym mis Hydref 1990 ond daeth i ben yn 1991. Pan sefydlwyd ef yn 1980 yr oedd dros 1,000 o bapurau lleol y telid amdanynt yn cael eu cynhyrchu ym Mhrydain tra mai 411 yn unig o bapurau lleol rhad oedd ar gael. Erbyn 1990 y mae darlun gwahanol iawn wedi ymddangos lle ceid 856 o bapurau y telid amdanynt a nifer y papurau rhad wedi codi uwchlaw 1,100.

Gwelir yr un duedd yn y cyd-destun Cymreig. Ar ddiwedd 1980 dim ond saith o'r deg a thrigain papur newydd lleol a gyhoeddid yng Nghymru oedd yn rhad ac am ddim, tra gwelir heddiw bedwar ar hugain ohonynt o'i gymharu â deunaw a thrigain o'r math traddodiadol. Aeth llawer o'r teitlau traddodiadol yn y cyfamser yn bapurau dosbarthu'n rhad. Y maent i'w gweld yn bennaf yn yr ardaloedd diwydiannol poblog yn ne a gogledd Cymru, ac yn yr ardaloedd mwyaf a gysylltir â'r diwydiant twristaidd. Yn yr ardaloedd mwy gwledig — fel y canolbarth tenau ei boblogaeth a rhai o'r ardaloedd mwyaf dirwasgedig yn y de diwydiannol — ychydig a welir o'r papurau hyn a'u pwyslais ar hysbysebu.


YN EISIAU

HEN GARDIAU PÔST O'R CYFNOD CYN 1940

J. B. Cowell
52 Lôn y Bryn
Porthaethwy
Gwynedd LL59 5LL
Ffôn: (0248) 712300